


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn / Ffacs: (01824) 703797
e-bost: cyngortrefrhuthun@sirddinbych.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS

Tel / Fax: (01824) 703797

e-mail: ruthintowncouncil@denbighshire.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

17 Mawrth 2014

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 24 MAWRTH 2014** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Dafydd Williams

Dafydd Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. CYMORTH LLIFOGYDD RHUTHUN CYFYNGEDIG

I dderbyn Y Parch Stuart Evans wnaiff gyflwyno sic e i'r Cyngor Tref yn cynrychioli balans terfynol y Gronfa uchod.

4. YR HEDDLU

I dderbyn adroddiad gan yr Heddlu.

5. ADRODDIAD Y MAER

6. ADRODDIADAU'R AELODAU

7. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2014.

8. MATERION YN CODI

- 9. PWYLLGOR AMWYNDERAU**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014.
- 10. PWYLLGOR CYNLLUNIO**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014.
- 11. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER**
I dderbyn ac ystyried enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer am 2014 / 2015.
- 12. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**
(a) PWYLLGOR URDD CYLCH RHUTHUN
I dderbyn ac ystyried Cais am Gymorth Ariannol (copïau glas).
(b) CWILTWYR DYFFRYN CLWYD
I dderbyn ac ystyried Cais am Gymorth Ariannol (ynghyd a Chyfrifon Ariannol) ar gyfer arddangosfa i'w chynnal ym mis Medi 2014 (copïau glas).
(c) CYMDEITHAS Y MUDIAD CASTELL RHUTHUN
I ystyried cais am Gymorth Ariannol yn dilyn y cyflwyniad mis diwethaf.
- 13. Y RHYFEL MAWR – CANMLWYDDIANT 1914**
I drafod y mater yma.
- 14. LLWYBR CELF RHUTHUN**
I dderbyn e-bost, ynghyd a rhestr yswiriant o waith celf, gan Michael Nixon, MN Arts Associates ac i ystyried lefel addas o yswiriant ar gyfer yr eitemau yma (copi pinc).
- 15. PLWYFI TREF RHUTHUN**
I'r holl Gynghorwyr gwblhau holiadur a dderbyniwyd gan y Mudiad uchod (copi gwyn).
- 16. STRATEGAETH RISG FLYNYDDOL**
I dderbyn ac ystyried y Strategaeth Risg Flynyddol (copi gwyrdd)
- 17. STRATEGAETH BUDDSODDIAD BLYNYDDOL**
I dderbyn ac ystyried y Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol (copi glas).
- 18. TÎM Y DREF**
I dderbyn a chadarnhau cais gan Gyngor Sir Ddinbych i ddal y swm o £1,000.00 hyd nes derbynnir eu hawdurdod i dalu hyn i Dîm y Dref pan yr apwyntir Trysorydd.
- 19. DATGANIAD ARIANNOL**
I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 28^{ain} Chwefror 2014 copi gwyrdd).
- 20. CYFRIFON I'W TALU**
I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:
- | | | | | |
|-----|--------------------------------|------------------------------------|---|--------|
| 530 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 531 | Cyllid y Wlad | Treth ac Yswiriant Gwladol | | 177.47 |
| 532 | Fineline Printing & Stationery | Eitemau swyddfa | * | 8.03 |
| 533 | Viking | Stoc flynyddol o bapur gwyn / lliw | * | 240.13 |
- (Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £56.36)
- 21. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Cadarnhau Nos Lun, 28 Ebrill 2014 fel dyddiad y Cyfarfod Arferol nesaf.